

# Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Craffu Pobl held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Mawrth, 5ed Mawrth, 2024 at 10.00 am

## Councillors Present

County Councillor (Chairman)  
County Councillor (Vice Chairman)

County Councillors: Fay Bromfield,  
Simon Howarth, Penny Jones, Maureen Powell,  
Sue Riley, Maria Stevens and Jackie Strong

Also in attendance County Councillors:

**APOLOGIES:** Councillors John Crook, Christopher Edwards and Martyn Groucutt

## Officers in Attendance

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu  
Nikki Wellington, Rheolwr Cyllid

### 1. Datganiadau o Fuddiant

Dim

### 2. Fforwm Aqored i'r Cyhoedd

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau.

### 3. Scrutiny of the School Catchment Review

Cyflwynodd Matt Jones, Rheolwr yr Uned Mynediad gynigion yn ymwneud â dalgylchoedd ysgolion cynradd a'r broses ymgynghori ar gyfer newid rhai o ddalgylchoedd Sir Fynwy. Eglurodd mai'r cynnig oedd newid dalgylch Tredynog, Llanhennog a Llandegfedd, sydd ag Ysgol Gynradd Charles Williams yng Nghasnewydd fel ysgol eu dalgylch ar hyn o bryd. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig alinio'r ardaloedd hyn â dalgylch cynradd Sir Fynwy ac Ysgol Gyfun Trefynwy, sef eu dalgylch uwchradd, fel bod plant Sir Fynwy yn cael mynediad cyfartal i ysgol yn Sir Fynwy. Lansiodd yr ymgynghoriad ym mis Ionawr a daeth i ben yn ddiweddar, a bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y cabinet ar y 10fed o Ebrill, yn seiliedig ar adroddiad a fydd yn cynnwys manylion yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

**Her:**

- Dywedodd Aelod yr ward ei bod yn gefnogol iawn i'r cynnig a'i bod wedi chwarae rhan lawn hyd yma yn y gwaith o ddrafftio'r adroddiad hwn.
- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch sut mae'r uned mynediad yn gweithio gyda'r adran gynllunio er mwyn paratoi a sicrhau bod digon o le mewn ysgolion ac sut y maent yn ystyried rhagamcanion tai yn y dyfodol, nodwyd enghreifftiau lle mae datblygiadau tai wedi'u marchnata fel rhai sydd o fewn dalgylch ysgol dda, ond efallai na fyddai lle yn yr ysgol honno.
- Amlygodd yr Aelodau eu pryder mewn perthynas â Crick Road a'r digonolrwydd, gan fod y 2 ysgol gynradd yn llawn.

- Holwyd faint o ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar ddalgylchoedd ysgolion cynradd (yr ateb oedd 17), faint oedd yn cefnogi'r newid arfaethedig (roedd 13 o'r ymatebion yn gefnogol), a beth oedd y prif resymau dros gefnogi neu wrthwynebu'r newid arfaethedig. Ymatebodd y swyddog bod cefnogwyr eisiau mynediad cyfartal i ysgol yn Sir Fynwy, tra bod y gwrthwynebwyr yn bryderus am bellter ac opsiynau teithio.
- Gofynnodd yr aelodau sut y byddai'r pellter teithio a'r opsiynau trafndiaeth yn effeithio ar y teuluoedd yn yr ardal yr effeithir arni a sut y bydd datblygiadau tai yn yr ardal yn effeithio ar gapasiti'r ysgolion. Eglurodd y swyddog y byddai'r cyngor yn darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i'r ysgol agosaf neu'r ysgol ddalgylch, ac y gallai rhieni barhau i ddewis anfon eu plant i Ysgol Charles Williams pe bai'n well ganddynt. Sicrhaodd yr Aelodau eu bod wedi ystyried y niferoedd rhagamcanol y plant o'r datblygiadau newydd a bod gan Ysgol Brynbuga ddigon o le i ddarparu ar eu cyfer.
- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch cyllid disgyblion ac i ble mae'n mynd os yw disgybl yn aros mewn ardal, eglurodd y swyddog fod cyllid yn berthnasol i'r niferoedd ar gofrestr yr ysgol yn unig, nid y pen, ac os yw plant yn mynd i'r ysgol y tu allan i'r sir, nid yw'r cyngor yn derbyn cyllid disgyblion ac yn yr un modd, os ydynt yn dod i mewn i Sir Fynwy o'r tu allan i'r sir, mae'r cyllid yn dod i mewn gyda nhw, felly mae'n tueddu i niwtraleiddio.
- Gofynnodd yr aelodau faint o ddisgyblion y byddai'r cynnig yn effeithio arnynt a beth fyddai cost eu cludo. Ymatebodd y swyddog mai 9 fyddai'n gymwys ac mai'r sefyllfa ragamcanol rhwng nawr a 2027 yw y byddai angen adeiladu 2 blentyn y flwyddyn i mewn i ddalgylch Brynbuga, ac y byddai angen bws mini ychwanegol ar eu cyfer.
- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch y gymhareb fformiwla ariannu a ddefnyddiwn, ond esboniwyd ei fod yn gymhleth ac y gellid dod ag ef i weithdy aelodau yn y dyfodol i'w drafod. a yw'n 1.3 y cartref?
- Gofynnodd yr aelodau ynglŷn â brodyr a chwiorydd ac a oes hawl awtomatig i'r brawd neu'r chwaer fynd i'r un ysgol. Yr ymateb oedd bod y polisi wedi ei ddiwygio i roi blaenoriaeth i blant y dalgylch dros y rhai sydd y tu allan i'r ardal, hyd yn oed os oes cyswllt o ran brawd neu chwaer.

### **Crynodeb:**

Cydnabu'r pwyllgor y cefndir, y rhesymeg a'r broses ymgynghori ar gyfer y newid arfaethedig i ddalgylch Tredynog, Llanhennog a Llandegfedd o Ysgol Gynradd Charles Williams yng Nghasnewydd i Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Brynbuga yn Sir Fynwy. Roedd y pwyllgor wedi clywed bod y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cefnogi'r newid, er bod rhai wedi codi pryderon am bellter ac opsiynau teithio. Roedd yr aelodau'n sylweddoli y byddai'r adolygiad o ddalgylchoedd ysgolion cynradd yn rhaglen dreigl, ac yn edrych ar bob ardal o'r sir ac yn asesu eu haddasrwydd a'u hangen am newid. Gofynnodd y pwyllgor am gael bod yn rhan o'r broses drwy weithdai a thynnodd sylw at yr angen i gynnwys yr aelod ward drwy gydol y broses. Roedd yr Aelodau'n cefnogi'r cynigion a amlinellwyd yn yr adroddiad.

## **4. Cynnig i symud Ysgol Y Fenni i safle newydd**

Cyflwynodd Matt Jones yr ail adroddiad a oedd yn ymwneud â'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Gymraeg y Fenni drwy ei hadleoli i hen safle Ysgol Gynradd Deri View. Eglurodd y cefndir, y broses statudol, a'r trefniadau ymgynghori. Eglurodd fod cynnig i adleoli'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg o'i safle presennol i hen safle Ysgol Gynradd Deri View, ac y byddai hyn yn cynyddu ei chapasiti i 420 o leoedd. Mae'r cynnig yn rhan o raglen ysgolion yr 21ain ganrif a'i nod yw ateb y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Y Fenni. Mae'r broses ymgynghori yn parhau a bydd y cabinet yn penderfynu ym mis Ebrill a ddylid symud ymlaen i gamau nesaf y broses statudol. Gofynnwyd i'r pwyllgor roi eu barn ar y cynnig a rhoi unrhyw adborth i'r cabinet.

**Her:**

- Gofynnodd yr aelodau faint o ganrannau ddatblygiadau tai newydd yw plant ysgol a sut mae hynny'n effeithio ar gapasiti'r ysgol. Eglurodd Matt Jones fod effaith datblygiadau tai yn amrywio yn dibynnu ar yr ardal a maint y tai. Dywedodd eu bod yn gweithio'n agos gyda'r tîm cynllunio ac yn defnyddio rhagamcanion i asesu capasiti ysgolion yr ardal. Dywedodd eu bod wedi cael rhywfaint o arian gan ddatblygwyr i gynyddu capasiti lle bo angen a'u bod yn edrych ar gynyddu capasiti yn y Fenni fel rhan o'r ysgol 3 i 19 a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Gofynnwyd cwestiwn ynghylch y ffeithiau a'r ffigurau ar ddatblygiad Crick Road a dalgylch Cil-y-coed neu Borth Sgiwed? Atebodd y swyddog fod hyn yn rhan o faes adolygiad y maent yn bwriadu ei gynnal a'u bod eisoes wedi cael rhywfaint o arian i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Parc y Castell. Dywedodd fod angen iddynt edrych hefyd ar y cynllun datblygu lleol diwygiedig a'r potensial am fwy o dai yn yr ardal. Dywedodd y byddant yn dod â mwy o fanylion i'r pwyllgor fel rhan o'r adolygiad parhaus o ddalgylchoedd.
- Gofynnodd Aelod sut y byddai Sir Fynwy yn cystadlu ag ysgolion fel Panteg sydd wedi'u graddio'n ardderchog o ran addysg cyfrwng Cymraeg. Eglurwyd nad yw Sir Fynwy yn colli llawer o blant i Banteg a'n bod yn gweld cynnydd yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Fynwy.
- Cwestiynodd yr aelodau yr amserlenni ar gyfer cwblhau ysgolion fel rhan o raglen ysgolion yr 21<sup>ain</sup> ganrif, yn arbennig yr oedi yn ysgol newydd y Brenin Harri 3 i 19 yn y Fenni. Cadarnhaodd y swyddog fod pob rhiant wedi cael gwybod am yr oedi dan sylw. Gofynnodd yr aelodau hefyd am eglurhad ar unrhyw gynigion yn y dyfodol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

#### **Crynodeb:**

Craffodd y Pwyllgor yn drylwyr ar y cynnig i adleoli Ysgol Gymraeg y Fenni a chynigiodd ei gefnogaeth.

#### **5. Nodi Blaenraglen Waith a Rhestr Weithredu'r Pwyllgor Craffu Pobl**

- Cytunwyd i gynnal gweithdy ar ddalgylchoedd ysgolion.
- Cytunodd y pwyllgor yr hoffent graffu ar gynllun y Bathodyn Glas, yn enwedig y gwahaniaethau meini prawf rhwng Sir Fynwy ac ardaloedd eraill a gwahodd yr Aelod Cabinet dros Gydraddoldeb, Age Cymru a Macmillan i gyfarfod er mwyn cael trafodaeth.

#### **6. Cynllun Gwaith y Cabinet a'r Cyngor**

#### **7. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 23ain Ionawr 2024**

Cadarnhawyd.

#### **8. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 16 Ebrill 2024**

16eg o Ebrill, 2024 am 10yb.

The meeting ended at **Time Not Specified**

